**Tasg 2**

# Potes Mis Medi

**Disgrifiad**

Pryd cyflawn mewn un ddysgl. Byddai'r pryd hwn yn cael ei goginio amser codi tatws. Roedd yn cael ei gadw'n boeth uwchben tân agored ac roedd y dynion oedd yn codi tatws yn gallu helpu eu hunain fel roeddent yn gorffen diwrnod caled o waith yn y cae.

**Cynnwys**

iii) 1/2pwys o darnau o gig moch
iv) 1/2pwys o cig oen mewn ciwbiau
v) 1pwys o tatws
vi) 1pwys o moron
vii) 1pwys o nionod/winwns
viii) 4 cenhinen
ix) 2beint o dŵr
x) 1/2pwys o rwdan/swêj
xi) 1owns o menyn
xii) 1owns o blawd
xiii) Halen a phupur

**Dull**

1. Ffria'r cig gyda menyn wedi ei doddi mewn potyn mawr
2. Ychwanega'r llysiau, dŵr a phupur a halen
3. Mudferwa'r cyfan am oddeutu 2 awr
4. Bwyta gyda bara brown ffres

5. Eich tro chi rŵan ydy chwilio am rysáit sydd yn defnyddio ffrwythau neu lysiau hydrefol. Cofiwch y rheolau rydych wedi eu dysgu uchod.

**BWYD YR HYDREF**

1. Mae'r daflen wybodaeth yn fanwl iawn oherwydd mae'n defnyddio'r nodweddion isod. Chwiliwch am enghreifftiau ohonynt.

**Gwefannau**

**Ansoddeiriau (nodwch 5)**

2. Pa 4 nodwedd arall yn y poster sy'n gwneud iddo apelio atoch chi? Pam?

| NODWEDD | ENGHRAIFFT | PAM MAE'N APELIO? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

3. Tanlinellwch y geiriau sy'n golygu'r un peth â'i gilydd yn y paragraff hwn:
Er mwyn gwybod pryd yw'r amser gorau i hel eich llysiau, ewch i wefan allotment-garden.org. Yma, cewch wybod pryd yn union yw'r amser gorau i gynaeafu eich cnydau.

**BWYD YR HYDREF ac ERS TALWM**

Llenwch y diagram Venn hwn i ddangos beth roedd pobl yn ei wneud gyda ffrwythau a llysiau'r hydref ers talwm a beth maen nhw'n ei wneud gyda nhw heddiw. Rhowch yr hyn sy'n gyffredin yn y canol.